**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Hydref 27ain 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Shereen Lunt, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig y Cyng Philip Stevens ar ei ddychweliad i'r cyngor tref.

**112 Cyfarfod a Heddlu Gogledd Cymru.** Croesawodd y cadeirydd y Rhingyll Neil Stringfellow, a'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Cafwyd gwybodaeth gan y Rhingyll Stringfellow ar ei gefndir a'i swydd bresennol oedd arwain y tîm plismona yn Ninbych a Llanelwy. Aeth y Rhingyll Stringfellow ymlaen i ddweud nad oedd ganddo adroddiad fel y cyfryw ond fod ganddo ddau fater oedd yn ei ddymuno ei ddwyn i sylw'r cyngor. Y mater cyntaf oedd staffio - ar hyn o bryd ond un PCSO oedd yn Ninbych ac un arall yn Llanelwy. Collwyd tri PCSO oherwydd newidiadau. Roedd PCSO newydd i ddechrau'r wythnos ganlynol a chwnstabl newydd yn y dyfodol agos. Roedd yna bosibiliadau y bydd dau PCSO ychwanegol yn y flwyddyn newydd. Roedd angen i'r awdurdod heddlu gael hyd i £18m dros y ddwy flynedd nesaf. Yr ail fater oedd swydd y Rhingyll Stringfellow i ddatrys problemau - roedd y swydd yma yn dibynnu cymaint ar wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y cyhoedd ac eraill.
Ymatebodd y Rhingyll Stringfellow i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar (1) Lleihad yn y lefel staffio ac ymddygiad gwrth cymdeithasol. (2) Presenoldeb yr heddlu yn y dref min nos ac yn ystod y nos yn arbennig pan gynhelir digwyddiadau. (3) Problemau cyffuriau yn Ninbych ac achosion trais dan ddylanwad cyffuriau ac alcohol. (4) Presenoldeb diweddar "teithwyr" wedi sefydlu eu hunain ar gyn safle Kwik Save. (5) Digwyddiad difrifol diweddar yn y dref a phlismona yn gyffredinol yn hwyr yn y nos.
Diolchodd y cadeirydd i'r Rhingyll Stringfellow am ei bresenoldeb a'i gyflwyniad.

**113. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**114. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley – unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng Colin Hughes – unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(3) Cyng Gaynor Wood – eitem agenda 14 – Neuadd y Dref
(4) Cyng Roy Tickle – eitem agenda 14 – Neuadd y Dref

**115. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fedi'r 22ain 2014, a Chofnodion y Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Hydref 13eg 2014.**

**116. Materion yn codi: 22.9.14:** (1) Cofnod 88 – Is bwyllgor TGC. Mewn ateb, dywedodd clerc y dref fod ymdrech i drefnu cyfarfod wedi bod yn aflwyddiannus. Ymdrech arall i drefnu cyfarfod.
(2) Cofnod 95(2)(4) - Ysgol Howell. Mewn ateb, dywedodd clerc y dref y bu cysylltiad â'r asiant ynglŷn â chyfarfod safle ond ni dderbyniwyd ymateb.
(3) Cofnod 95(2)(5) - Cyn safle Storfa Wlân. Dywedodd y Cyng Bartley y gobeithir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan adran cynllunio Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015.

**13.10.14**: (1) Cofnod 111(8) Hen Swyddfa'r Heddlu, Stryd y Dyffryn. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Phil Ebbrell o GSDd – nodwyd yr ymateb.
(2) Cofnod 107(2)(5) Gardd Goffa Dr Evan Pierce. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth CSDd ynglŷn â'r bin ysbwriel ar gyfer yr ardd. Yn dilyn trafodaeth ar y mater cytunwyd i ofyn i GSDd chwilio am bin gyda'r eirfa'n ddwyieithog. Cyfeiriodd clerc y dref hefyd at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Lidl ynglŷn â noddi'r bin. Derbyniwyd y cynnig i noddi gyda diolch.
(3) Cofnod 111(2) Fferyllfa Rowlands, Stryd y Dyffryn. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth Phil Ebbrell o GSDd yn rhoddi diweddariad ar y mater. Nodwyd yr wybodaeth.
(4) Cofnod 107(2)(3) Clwb Bowlio'r Parc Isaf. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y cadeirydd Steve Chalk. Nodwyd yr e-bost.
(5) Cofnod 107(2) Grŵp Busnes Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at y ddau e-bost a dderbyniwyd ac fe'i nodwyd a'u trafodwyd. Ymhelaethodd y Cyng Colin Hughes ar yr e-bost a yrrwyd ganddo. Dywedwyd fod angen i'r cyngor edrych yn gytbwys ac nid oedd angen i'r cyngor fod yn ymglymedig. Roedd angen i'r cyngor ddangos nad oedd yn cymryd yr un ochr na'r llall. Dywedodd clerc y dref fod y grŵp busnes yn hapus i'r cyngor gael golwg ar eu cyfrifon. Ailadroddodd clerc y dref yr hyn a ddywedwyd yng nghyfarfod diwethaf y cyngor tref, hynny yw, nad oedd gan y cyngor unrhyw awdurdodaeth ynglŷn â'r grŵp busnes a bod y cyngor ond yn ariannu gwyliau penodol yn Ninbych ac nid y grŵp busnes. Hysbysebwyd Mr Hobson am hyn.
(6) Cofnod 107(2)(3) Arwyddion ar yr A55. Mewn ateb dywedodd clerc y dref y cafwyd ar ddeall fod ymgais i drefnu cyfarfod pellach ar Dachwedd 21ain.

**117. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer.

**118. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Hwb Dinbych. Cytunwyd i'r Cyng Mark Young fod yn gynrychiolydd y cyngor ar Grŵp Rheoli'r Hwb.
(2) Cyfarfod Blynyddol CGGSDd 21.11.14 – y Cyng Margaret Bowe yn mynychu.
(3) Cyfeiriwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth (a) Clwb Rotary Dinbych, (b) Cymdeithas Gymraeg Dinbych, (c) Trwsio a Gofal Sir Ddinbych a (ch) Eisteddfod Genedlaethol 2015 at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.

**119. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Travis Perkins Trading Co. Ltd, Uned 10C Llwyn Goch, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(2) 7, Lyf Lôn
(3) Iard Glo, Ffordd y Graig
(4) Llwyn, Lawnt
(5) Old Vaults, 40-42 Stryd Fawr (2 gais)
(6) 51, Mytton Park
(7) 29, Ffordd Rhuthun

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Y Forum, 27 - 29 Stryd Fawr (2 gais) ni dderbyniwyd ymateb i gais blaenorol am ymweliad safle. Cytunwyd i yrru cais pellach am ymweliad safle.

2. Materion Cynllunio eraill. (1) Nodwyd yr un dystysgrif cynllunio a dderbyniwyd.
(2) Nodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Michael Lavers ynglŷn â'r ffordd beicio.

**120. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** Archwilio a Phersonél. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd yr argymhellion oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion. Dywedwyd (1) Y dylid delio gyda'r holl argymhellion gyda'i gilydd ac nid ar wahân. (2) Yr egwyddor oedd yn bwysig ar hyn o bryd. (3) Dylai'r disgrifiad swydd fod yn ddogfen gweithio ac yn un llifol a hyblyg. Cytunwyd i ystyried y tri argymhelliad cyntaf gyda'i gilydd, sef (1) i argymell mewn egwyddor ei bod hi'n hanfodol fod y cyngor yn hysbysu am gynorthwyydd gweinyddol, (2) i argymell disgrifiad swydd a (3) i argymell teitl fel Cynorthwyydd i Glerc y Dref. **Penderfynwyd derbyn y tri argymhelliad.** Cytunwyd fod argymhellion pedwar a phump ynglŷn â (a) ariannu cynorthwyydd a (b) addasu swyddfa bresennol y cyngor ar gyfer dau berson, yn cael eu gadael dros dro tan fydd trafodaethau ar gyllideb y cyngor ym Mis Ionawr 2015. Cytunwyd ymhellach i'r holl faterion a gyfeiriwyd atynt gael eu cyfeirio'n ôl at yr is bwyllgor archwilio a phersonél i finreino'r argymhellion.

**121. Adroddiadau**: (1) Amgueddfa Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Sir Gwyneth Kensler. Roedd bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i'r goriadau gael eu trosglwyddo gan y cyngor tref i Fwrdd yr Amgueddfa. Gwrthodwyd y cais gwreiddiol i GTL am fod CTL eisiau i adolygiad Treftadaeth Sir Ddinbych gymryd lle i ddechrau. Cyflwynwyd cais newydd i GTL yn ddiweddar a gobeithir y gellir cael trafodaethau gyda CTL. Sefydlwyd pwyllgor rheoli. Cynhaliwyd noson agored Mis Mai diwethaf pan fynychwyd gan 200 o bobl. Bu'r adeilad yn agored yn ystod penwythnos Drysau'n Agored. Roed Grŵp yr Archif Gymunedol yn gobeithio adleoli o'r Llyfrgell. Wi-Fi i'w osod. Roedd Cymdeithas Hanes Teulu Sir Ddinbych yn dangos diddordeb mewn adleoli i Ddinbych. Roedd Ymddiriedolaeth Gee wedi cytuno i symud y cyfan oedd yn eu meddiant i'r amgueddfa. Gobeithir dechrau ar y gwaith mewnol ac allanol ac i apwyntio syrfëwr i gynorthwyo. I edrych ar dynnu i lawr y ffug nenfwd ac adfer y nenfwd i'w gyflwr gwreiddiol. Penderfynwyd cadw'r ystafell Llys fel ac yr oedd. Gobeithir y bydd galw i ddefnyddio gan yr ysgolion a hefyd llogi gan grwpiau theatr. Y bwriad fydd i gynnal trafodaeth mewn amser gyda'r cyngor tref ynglŷn â chynlluniau ar gyfer yr adeilad. Dangoswyd llawer o ddefnydd a diddordeb. Roedd yn bosibilrwydd i'r ystafell Llys gael ei ddefnyddio ar gyfer materion fel gwrandawiadau apeliadau cynllunio ac ati.

*Yn y man yma gadawodd y Cyng Philip Stevens y cyfarfod am 7.45pm.*

(2) Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod cronfa wedi ei sefydlu er cof am y diweddar Arthur Jones i'w defnyddio fel cronfa argyfwng. Apwyntiwyd saith o ymddiriedolwyr a chynhelir y cyfarfod cyntaf yr wythnos ganlynol - roedd £10,000 yn ymglymedig.
(3) Hwb Dinbych. Dywedodd y Cyng Colin Hughes fod chwe aelod o'r cyngor tref wedi mynychu'r ymweliad a'r Hwb y dydd Llun blaenorol. Ychwanegodd y Cyng Mark Young fod yr Hwb yn gyfleuster ffantastig ac yn fuddiol i bobl Dinbych.
(4) Ysgol Frongoch. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Gaynor Wood ar gyfarfod diweddar o'r Llywodraethwyr - yr ysgol i gael archwiliad a phenodwyd dirprwy brif athro newydd. Roedd popeth yn mynd ymlaen yn dda iawn yn yr Ysgol.
(5) Gwefan Ymweld â Dinbych. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod symudiadau ar y gweill a dangoswyd nifer o ddiddordeb mewn hysbysebu ar y wefan. Ychwanegodd y Cyng Rob Parkes ei fod yn siomedig na fu cyfathrebiad gyda busnesau ac roedd yn feirniadol o Cadwyn Clwyd. Awgrymwyd i hyn gael ei grybwyll yng nghyfarfod nesaf y grŵp llywio ac os na fydd ymateb i hysbysu clerc y dref ac iddo gymryd y mater i fyny gyda Cadwyn Clwyd.
(6) Sioe Dinbych. Dywedodd y Cyng Rob Parkes y bu lleihad gweddol fawr yn y nifer a fynychodd y sioe eleni.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**121. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: Dim byd i'w adrodd.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley: Roedd y cynlluniau ar gyfer y ffordd feicio yn fater cynhennus a'r newyddion diweddaraf oedd y byd hi, mae'n debyg, yn fis Chwefror 2015 o leiaf cyn yr ystyrir y cais cynllunio

**122. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Clerc y Dref – ad-daliad costau stampiau post (rhif siec 005477) | - | £53.00 |
| (2) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Tachwedd) (rhif siec 005478) | - | £18.37 |
| (3) | E Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P (rhif siec 005479) | - | £60.00 |

Cyfanswm taliadau: £131.37

**2.** Unrhyw faterion ariannol eraill**:** (1) Nodwyd y diweddariad a dderbyniwyd oddi wrth Rogers Jones Co ar y rhestr brisiant i gynnwys y tri darlun oedd ar y muriau uwchben grisiau Neuadd y Dref.
(2) Ystyriwyd a derbyniwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Cambrian Woodlands Services ynglŷn â Choed Nadolig.
(3) Ystyriwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth goleuadau strydoedd CSDd i symud y cyflenwad pŵer ar gyfer un o'r camerâu CCTV oedd yn achosi problemau a hefyd fyddai'n sicrhau cyflenwad cyson ar gyfer un o'r goleuadau Nadolig ar draws y Stryd Fawr. Derbyniwyd y dyfynbris yn y swm o £142.07 & TAW.

**123. Noson Tân Gwyllt Dinbych.** Cafwyd diweddariad gan glerc y dref: (1) yn dal i ddisgwyl ymateb gan GSDd ynglŷn â chau'r strydoedd a hefyd ymateb oddi wrth Cadw os caniatawyd caniatâd i ddefnyddio'r castell. (2) Cafwyd ymweliad safle gyda swyddog o GSDd ynglŷn â lleoliad y rhwystrau tyrfa ac archebwyd y rhwystrau. (3) Gofynnwyd am gymorth i ddosbarthu posteri. (4) Gofynnwyd am wirfoddolwyr i ddosbarthu taflenni i drigolion ardaloedd y Castella Lyf Lôn. (5) Rhostio Mochyn a diodydd poeth wedi eu trefnu. (6) Rotary, Clwb Rygbi Dinbych a'r Ford Gron yn trefnu stiwardiaid - cymorth hefyd ei angen gan aelodau'r cyngor - yr holl stiwardiaid i gyfarfod a chlerc y dref wrth Dwr Sant Iliar am 6 o'r gloch. Mynegwyd peth pryder nad oedd CSDd wedi dod yn ôl gyda phenderfyniad ynglŷn â chau'r strydoedd.

**124. Dyfodol Neuadd y Dref Dinbych**: Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth adran Hamdden Sir Ddinbych. Trafodwyd y mater a mynegwyd nifer o sylwadau. Cadarnhaodd clerc y dref ei fod am ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ynglŷn â datganiadau diddordeb pan fydd y mater yn cael ei drafod gan yr aelodau. Dywedwyd fod angen i'r aelodau gael gwybodaeth o flaen llaw er mwyn bod mewn sefyllfa i drafod y materion gyda swyddogion y cyngor sir. Cytunwyd i drefnu cyfarfod arbennig o'r cyngor tref nos Lun Tachwedd 17eg am 6 o'r gloch gyda'r unig bwrpas o gael trafodaeth gyda swyddogion Sir Ddinbych ar ddyfodol Neuadd y Dref a hefyd i ofyn am wybodaeth o flaen llaw.

**125. Awgrymiadau Cyllideb Cyngor Sir Ddinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Brif Weithredwr CSDd, Dr Mohammed Mehmet. Dywedodd clerc y dref fod yr holl glercod tref i gyfarfod a swyddogion o'r cyngor sir i drafod yr awgrymiadau. Nid oedd y cyngor sir wedi gwneud penderfyniadau hyd yn hyn. Cytunwyd mai'r unig beth a ellir ei wneud ar hyn o bryd oedd nodi'r awgrymiadau.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.25 o'r gloch.

Arwyddwyd:....................................................... (cadeirydd)
Dyddiad:.........................